

#falch

Cymraeg

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Dathlu popeth Cymraeg

Adroddiad Blynyddol
Cydymffurfiaeth â'r
Gymraeg, ei Darpariaeth
a'i Hyrwyddo yn Coleg
Caerdydd a'r Fro

2022-23

Cyflwyniad

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn falch o fod yn Gymraeg. Fel y grŵp coleg mwyaf yng Nghymru, rydym yn frwd dros ein gwlad, ein hiaith a datblygu cyfleoedd i bawb gael siarad, dysgu a ffynnu yn y Gymraeg.

Yn yr adroddiad hwn rhoddir trosolwg o'n gwaith yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-23 ar 'Ddathlu popeth Cymraeg' – gan gynnwys ein darpariaeth a chymorth i ddysgwyr a'n gwaith yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i ddangos sut ydym wedi cydymffurfio â'n Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn – dyletswydd statudol i'r Coleg.

Mae'r adroddiad hwn yn myfyrio ar weithgareddau blwyddyn academiaidd 2022-23, ac mae'r data yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023.

Mwy o ddysgwyr wedi astudio modiwl Cymraeg neu ddwyieithog fel rhan o'u cwrs...



Cyfanswm o 6455 o ddysgwyr mewn gwirionedd ar draws pob maes cwricwlwm. Ochr yn ochr â hyn, cwblhaodd 1062 o ddysgwyr fodiwlau dwyieithog ychwanegol gan CBAC - i ddatblygu'r iaith Gymraeg a sgiliau penodol ochr yn ochr â hynny.

Cafodd ein cwrs E-diwtorial hanfodol ar gyfer pob dysgwr llawn amser, o'r enw 'Dwyieithrwydd ar gyfer y Gweithle', ei ddatblygu eto am yr ail flwyddyn. Roedd y cwrs aml-wythnos hwn wedi'i gynllunio gan staff CAVC, ar gyfer dysgwyr CAVC, gan gynnwys pythefnos o sesiynau'n canolbwyntio ar sgiliau Cymraeg cyffredinol cyn symud ymlaen at bythefnos arall o sesiynau yn mynd i'r afael ag iaith sy'n benodol i bwnc ar gyfer diwydiant. Drwy system bathodyn mewnol, mae dysgwyr yn cyflawni bathodynau ac mae'r coleg yn olrhain statws cwblhau modiwl o wythnos i wythnos, gan roi data cywir am ddysgwyr i ni.

Gwnaethom barhau i fewnosod modiwlau Cymraeg mewn cyrsiau allweddol, gyda dysgwyr ar y cwrs TAR yn cwblhau rhaglenni ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gan Sgiliaith, gan gefnogi dealltwriaeth gref o ofynion y Gymraeg a'r budd o ran cyflogadwyedd iddynt a'u darpar ddysgwyr.

Yn ogystal, gwnaethom barhau i gyflwyno gwersi Cymraeg i ddechreuwr ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ar draws lluo o gyrsgiau o feysydd y mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth ynddynt, o lechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus, y Diwydiannau Creadigol i ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill).

Ac yn fwy nag erioed, gwnaethom ddefnyddio adnoddau arloesol a dysgu ar-lein i gefnogi dysg ddwyieithog yn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel ein ap ar gyfer cyrsiau Gwasanaethau Cyhoeddus, 'Gwasanaethau trwy'r Gymraeg' a'n ap Chwaraeon 'Chwaraeon Trwy'r Gymraeg' a gefnogir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Mae agwedd emosiynol iawn i'r iaith Gymraeg. Gallwch weld yn glir y brwdfrydedd sydd gan y coleg a'r gymuned sy'n cael ei chreu yn sgil hynny. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o ddiwylliant Cymreig CAVC!

Gabriel Lilford,
Cynhyrchu Cerddoriaeth

Gwnaethom sicrhau taith ddwyieithog i ddysgwyr o'r cyswllt cyntaf



Fel rhywun o deulu sydd ddim yn siarad Cymraeg ac a fynychodd ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg, teimlais fod llawer o bwysau ar ddisgyblion i siarad Cymraeg bob dydd. Nawr fy mod yn y coleg, mae gen i'r rhyddid i siarad Cymraeg pryd bynnag y dymunaf ac mae hynny wedi gwneud i mi fod eisiau defnyddio'r iaith Gymraeg yn fwy aml. Rwy'n ymroddedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y coleg, ac yn frwd dros hynny, ac am gymryd rhan mewn gweithgareddau fel llysgennad. Yn sgîl hyn, enillais y Wobr Gymraeg, sy'n anrhydedd fawr.

**Bethan Paull,
Pobi Lefel 3**


Roedd pob ymdrech farchnata (gwefan, pamffledi, deunyddiau, gwybodaeth ynghylch cyrsiau, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu etc) a gweithgareddau recriwtio myfyrwyr (cyswllt ag ysgolion, deunyddiau, negeseuon e-bost uniongyrchol a phost personol etc), y broses ymgeisio, y broses ymrestru, a'r holl ohebiaeth ynghlwm â hyn, yn ddwyieithog.

Cafodd ein darpariaeth Gymraeg a chefnogaeth tuag at y Gymraeg ei hyrwyddo'n amlwg ar draws y gwaith hwn, gan gynnwys tudalennau pwrrpasol ar-lein ac mewn print a chyswllt unigryw ag ysgolion ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, a'r cwbl yn annog dysgwyr yn weithredol i ddefnyddio eu sgiliau a deall eu hawliau am gefnogaeth ac asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Defnyddiasom ein cyfres o fideos ac ymgyrchoedd hysbysebu yn cynnwys dysgwyr sy'n gallu'r Gymraeg - hyrwyddo cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog y gwaith recriwtio a diddordeb yn y rhain.

Ochr yn ochr â'n llinell ffôn a chyfeiriad e-bost canolog dwyieithog, gwnaethom barhau i hyrwyddo a defnyddio SgwrsFyw ddwyieithog ar ein gwefan CAVC, gan alluogi aelodau'r cyhoedd i ymweld â'n gwefan, anfon cwestiynau yn Gymraeg neu Saesneg a chael ymateb gan aelod o'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn eu hiaith ddewisol.

A gwnaethom gynnal ymgyrchoedd ar-lein gyda thema iddynt yn ystod y flwyddyn, gan hyrwyddo newyddion, yr ystod eang o gymorth Cymraeg sydd ar gael ar gyfer dysgwyr, ein Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg a'n Llysgenhadon Myfyrwyr, ein gwasanaethau Cymraeg, ein gwaith gyda sefydliadau partner, ein hymrwymiad i'r Gymraeg a dysg ddwyieithog a llawer mwy.



Mwy o fyfyrwyr Cymraeg nag erioed o'r blaen

Ac fe gafodd hyn oll effaith, gyda mwy o ddysgwyr Cymraeg yn ymrestru yn CAVC a datgan lefel eu Cymraeg. Mewn gwirionedd, 2,539 o ddysgwyr ar draws 923 cwrs, gyda 1060 yn nodi eu bod yn rhugl

Gwnaethom gynnig cefnogaeth gynhwysfawr a rhagweithiol i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg



Wrth ymrestru, ychwanegwyd gwybodaeth allweddol at broffil ar-lein pob dysgwr, i adnabod y rhai sy'n dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac eraill y mae'r Gymraeg yn iaith ddewisol iddynt. Roedd hyn yn darparu darlun o'r Coleg cyfan ac yn galluogi cefnogaeth i unigolion.

Yn ystod y broses ymrestru, nodwyd a chysylltwyd â'r dysgwyr hyn drwy eu tiwtor ac e-bost personol, yn annog dysgwyr i ddatgan eu sgiliau, a pharhau i'w defnyddio, datblygu eu sgiliau a deall eu hawliau am gefnogaeth ac asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd hyn hefyd ei hyrwyddo yn Ffair y Glas a thrwy'r Porth Myfyrwyr dwyieithog a'r ap dwyieithog poblogaidd, MyCAVC.

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd athrawon i ddefnyddio'r wybodaeth ar broffiliau ar-lein dysgwyr, gan annog y rheiny sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg i ddatblygu eu Cymraeg a deall eu hawliau, gosod targedau datblygu'r Gymraeg ochr yn ochr â thargedau yn benodol i'r cwrs yn eu Cynllun Dysgu Unigol a hyrwyddo cefnogaeth, asesiadau a chyflwyno gwaith yn eu hiaith ddewisol.

Gall athrawon a rheolwyr hefyd weld data dysgwyr ar lefel adrannol – gan gefnogi agwedd adran gyfan at gefnogi dysgwyr Cymraeg, gan gynnwys grwpiau tiwtorial pwrpasol.

Gwnaethom recriwtio staff mewn swyddi Cymraeg newydd. Gwnaethom benodi Swyddog Pontio Cymraeg i gefnogi twf proffil yr iaith Gymraeg ar draws ein campysau a sicrhau bod pob dysgwr sy'n siarad Cymraeg sy'n ymuno â ni yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen i bontio i ffordd newydd o ddysgu'n ddwyieithog. A chyflogasom Hyfforddwr Datblygu Chwaraeon Cymraeg i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog yn y maes hwnnw.






Parhaodd yr holl ddysgwyr i ymgymryd ag asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ar ddechrau eu cwrs – yn asesu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol yn eu hiaith ddewisol (gyda botwm togl am gefnogaeth). Mae cefnogaeth bwrpasol ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn dal i fod ar gael, gan gynnwys geirfaeod terminoleg, cefnogaeth ar-lein, cefnogaeth yn y dosbarth a'r cynnig i wneud pob asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu ein tîm o Anogwyr Dysgu yn cyflwyno sesiynau llythrennedd Cymraeg a dwyieithog ar werthuso ffynonellau rhyngwyd, crynhoi testun, llên-ladrad a chyfeirio i garfannau, gan gynnwys y grwpiau hynny sy'n cwblhau Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tyfodd ein Pyrth Myfyrwyr a Staff dwyieithog, gan barhau i hysbysebu cyfleoedd a digwyddiadau mewnol ac allanol, adnoddau darllen newydd, hyrwyddo clybiau a chefnogaeth CAVC, Cwestiynau Cyffredin, adnoddau cyfoethogi, newyddion, a hysbysiadau byw drwy'r dydd. Aethom ati i ddatblygu ein ap dwyieithog, MyCAVC, ymhellach, gan gyflwyno'r holl wybodaeth a oedd ei hangen ar ddysgwyr yn ystod 2022-23, yn cynnwys amserlenni personol, cynnydd, gwybodaeth am arholiadau ac asesiadau, yn ogystal â chefnogaeth, cyfleoedd a gwasanaethau.

Yn ogystal â hynny, cynigwyd cortynnau pwrpasol i ddysgwyr a staff sy'n siarad Cymraeg yn arddangos y symbol Cymraeg er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws CAVC.



Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg



Mae bod yn hyrwyddwr Cymraeg eleni wedi fy ngalluogi i weithio yn yr adran i ddatblygu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gyda staff a dygwyr. Ochr yn ochr â hyrwyddo'r iaith yn fy nghyfadrann fy hun, rwyf hefyd wedi mwynhau trefnu perfformiadau cerddorol ar draws y coleg i ddatlu sawl diwrnod Cymraeg a gododd proffil diwylliant Cymreig ac sydd wedi galluogi dysgwyr a staff i fod yn fwy ymwybodol o'r iaith Gymraeg, ei chyfleoedd a'i phwysigrwydd yn y gweithle. Cefais hefyd fy nyfarnu â 'Gwobr y Cynllun Mewnosod – Cyfoethogi Proffesiadau Dysgwyr a Phrentisiaid' yng ngwobrau blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a oedd yn anrhydedd fawr.

Sian Chandler, Darlithydd Diwydiannau Creadigol a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg CAVC

Fel rhan o'n Rhaglen Llysgenhadon Myfyrwyr Cymraeg, aeth 9 dysgwr o ystod o wahanol bynciau ati i weithio gyda'r coleg i hyrwyddo'r iaith a datblygu ei phresenoldeb y tu allan i'r dosbarth. Gwnaethom hefyd recriwtio 10 aelod o staff hynod frwd i weithio fel Hyrwyddwyr y Gymraeg eleni. Wedi'u neilltuo i ystod eang o feysydd cwricwlwm, cyflwynodd yr Hyrwyddwyr gyngor a chymorth pwrpasol wythnosol i'w meysydd, creu a chyflwyno hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i staff yn cwmpasu'r holl agweddau ar gwricwlwm Cymru, cefnogi cynnydd yn nifer y staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn 23/24, datblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd ar draws CAVC a chefnogi'r gwaith o normaleiddio diwylliant dwyieithog yn yr ystafell ddosbarth..

Cyhoeddassom ein 'Ap Cymhellant' Cymraeg ar Teams i annog bob aelod o staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hystafelloedd dosbarth a chofnodi arfer dda. Datblygwyd yr ap gan ddefnyddio sgorfwrdd lle mae pob adran yn ychwanegu gwybodaeth a thystiolaeth o'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth ac enillir gwobrau drwy gydol y flwyddyn.

Tyfodd cyfleoedd dwyieithog cyffrous i fyfyrwyr y tu allan i'r dosbarth. Bu'r cyflwynydd a darlledwr dwyieithog adnabyddus, Jason Mohammad, yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg i sefydlu Academi Cyfryngau Jason Mohammad CAVC yn 2021, yn arbennig ar gyfer myfyrwyr CAVC sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y Cyfryngau. Caiff dysgwyr gyflwyniad manwl i'r cyfryngau a newyddiaduraeth, eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac ychwanegu sgiliau hanfodol a phroffesiadau cyffrous i'w CV er mwyn eu helpu i serennu yn y dorf.

Parhaodd ein clwb llesiant dwyieithog newydd, sef 'Y Lles-Plês', i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu, rhannu a gwneud ffrindiau newydd. Ochr yn ochr â'r tîm craidd o ddysgwyr sy'n rheoli'r clwb hwn, roedd y tîm staff Cymraeg ar gael i gynnig mwy o gymorth os oedd angen. Gwnaethom hefyd barhau i ddatblygu swn@CAVC - ein clwb Cymraeg dan arweiniad Llysgennad Myfyriwr sy'n cynnig cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr, rhywle iddynt ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, cyfleoedd swyddi, gigiau a llawer mwy!



Mae cyflwyno'n ddwyieithog yn Academi Jason Mohammad a bod yn Llysgennad Cymraeg wedi fy nghaniatáu i gynnal a rhoi hwb i fy sgiliau iaith Gymraeg. Rhoddodd hyn yr hyder i mi weithio yn BBC Radio Cymru, lle'r wyf yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Dewis CAVC oedd y penderfyniad gorau erioed. Gwnaeth feithrin fy annibyniaeth, rhoi hwb i fy hyder a gwneud fy llwybr gyrfa yn glir i mi.

Ffion Llewellyn, Safon Uwch
(Busnes, Daearyddiaeth, Celf ynghyd â Bagloriaeth Cymru). Bellach wedi cael prentisiaeth gyda BBC Cymru Wales.

Parhaodd ein rhaglen Career Ready lwyddiannus i gynnal byrddau cynghori cyflogwyr lleol yn ddwyieithog a chefnogi'r holl ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg; gan ddarparu adnoddau wedi'u cyfieithu a chynnal sesiynau mentora dwyieithog un-i-un rhwng myfyrwyr a'u mentoriaid busnes.

Gwnaethom wahodd ystod eang o siaradwyr allanol i gyflwyno sesiynau ysbrydoledig ar y campws, er mwyn ysbrydoli ein dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg – gan gynnwys pobl broffesiynol y byd chwaraeon, pobl broffesiynol oddi ar y teledu ac o'r diwydiannau creadigol, arbenigwyr iechyd a gofal a Miss Cymru!

Gwnaethom barhau i weithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu ystod o brosiectau ar draws CAVC, gan gynnwys:

- Datblygiad cyfrwng Cymraeg yn y sectorau gwasanaethau cyhoeddus, chwaraeon, iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant
- Hyrwyddo a hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar draws CAVC
- Y cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr
- A chawsom gyfle i ddathlu cyflawniadau drwy noddi gwobrau i staff a dysgwyr, gan ddathlu aelodau o'n teulu CAVC am eu cyflawniadau Cymraeg.

Cymraeg @ CAVC @CAVC_Cymraeg · Dec 7, 2022
Eleni, mae CAVC wedi penodi mwy o Lysgenhadon Myfyrwyr Cymraeg nag erioed o'r blaen! Mae'r saith Llysgennad yn gweithio gyda'i gilydd i redeg clybiau, i gynorthwyo eu cyfoedion ac i hyrwyddo'r Gymraeg ledled CAVC.
#MaeGeniHawl #SiaradDysguByw @adlais_cavc



Cymraeg @ CAVC @CAVC_Cymraeg · Dec 7, 2022
Ddysgwyr CAVC, dewch i'r atriwm i weld ein stondin grefftau ac i ymuno â'n clwb Cymraeg Y Lles Plêd heddwl – a chewch fag nwyddau rhad ac am ddim! Mae'r clwb yn cynnal podlediad llesiant a gailwch gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol!
#MaeGeniHawl #SiaradDysguByw @adlais_cavc



Adlais @ CAVC @adlais_cavc · 28m
Dewch i ddathlu #DyddMiwsigCymru @CAVC Gig o 12yp gyda stondin gwybodaeth #Tafwyl Join in our celebrations, lunchtime gig plus information stall with Tafwyl 🎵 @MenterCaerdydd



Cymraeg @ CAVC @CAVC_Cymraeg · Nov 25, 2022
Fyfyrwyr CAVC, dewch i wyllo gêm Cymru yn erbyn Iran gyda... Bydd ein dysgwyr cerdd yn perfformio cerddoriaeth Gymraeg fyw a byddwn yn cynnal gweithgareddau Cymreig yn ystod y gêm!
#SiaradDysguByw



Cymraeg @ CAVC @CAVC_Cymraeg · Oct 14, 2022
Gwnaed y ddraig origami wych hon gan ein myfyrwyr Cameron Breese a Maia Lewis o adran gelf i ddathlu Diwrnod Shwmae ac maent yn annog y rhai sy'n cerdded heibio i gymryd rhan drwy ddweud Shwmae yn Gymraeg.

#SiaradDysguByw
#ShwmaeSumae22
@ShwmaeSumae



Gwnaethom ddathlu gwyliau Cymraeg, a chynnwys myfyrwyr ar draws y Coleg ynddynt, gan gynnwys

- **Dydd Shwmae** gydag ymgyrch i ddathlu cyhoeddi ein Cynllun Cymhellion Cymraeg sy'n rhannu arfer dda y coleg ac yn cefnogi staff i ddatblygu eu gallu yn y Gymraeg, a hynny y tu mewn i'r dosbarth a'r tu hwnt iddo
- **Gŵyl Tafwyl** fel prif noddwyr balch, gyda phresenoldeb yn y digwyddiad a chyda myfyrwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau
- **Dydd Hawliau'r Iaith Gymraeg** gyda'n clwb llesiant Cymraeg, Y Lles Plêd, yn annog dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg a chymryd rhan yn y clwb ochr yn ochr â ffilm a gafodd ei chynhyrchu gan ein myfyrwyr cyfryngau creadigol er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a helpu i ddathlu'r ymgyrch
- **Dydd Santes Dwynwen** gyda sesiynau dan arweiniad athrawon a gweithgareddau i fyfyrwyr ar draws ein campysau
- **Dydd Miwsig Cymru** gyda thîm Cynhyrchu Cerddoriaeth CAVC yn cynnal ei ddigwyddiad artistiaid Cymraeg ac amrywiaeth o artistiaid Cymraeg yn perfformio
- **Dydd Gŵyl Dewi** gyda pherfformiadau cerddoriaeth dan arweiniad myfyrwyr a gigiau ar draws ein campysau
- **Wythnos Gymraeg** gyda'n myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf llyfrau, cyngherddau cerddoriaeth, stondinau a mwy
- **#FelMerch** gyda dysgwyr yn mynychu'r digwyddiad
- **Cystadlaethau'r Urdd** gyda dysgwyr yn cystadlu yn ystod Eisteddfod yr Urdd
- **Dydd Dylan Thomas** gyda dysgwyr yn mynychu gweithdai i ymgysylltu â barddoniaeth Gymraeg
- **Galw Nhw Allan** gyda dysgwyr yn cymryd rhan mewn ffilm hyrwyddol i gefnogi a hyrwyddo'r ymgyrch
- Agwnaethom fel coleg gefnogi Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd, gan gynnal sawl digwyddiad i ddathlu dwyieithrwydd

Gwnaethom barhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg ein staff

Gwnaethom barhau i fod yn un o ddarparwyr mwyaf Cymraeg Gwaith, rhaglen i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff fel y gallant addysgu a chefnogi dysgwyr yn ddwyieithog. Yn ystod y flwyddyn, aeth 68 aelod o staff ati i ymgymryd â'r rhaglen - ac mae'n cael effaith gyda thystiolaeth o'r staff hyn yn mewnosod y Gymraeg ac yn ehangu darpariaeth a chefnogaeth ddwyieithog.

Gwnaethom fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus unigryw i gefnogi meysydd blaenoriaeth i wella'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Er enghraifft, cyhoeddodd Sgiliaith gwrs dwyieithog ar draws 2 ddiwrnod i gefnogi tiwtoriaid i addysgu'n ddwyieithog yn hyderus, ochr yn ochr â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer staff Cymraeg Gwaith i ddarparu staff â gofynion perthnasol a chyfredol yn y dosbarth. Cymerodd sawl aelod o staff ran yn rhaglen mentora Sgiliaith a chwblhau cymwysterau MA mewn addysg ddwyieithog.

Gwnaethom barhau i ddatblygu cwrs digidol ar-lein, sef 'Ymwybyddiaeth Cymraeg ar gyfer Staff', yn mynd i'r afael â gofynion cwricwlwm Cymru, y cymorth mewnol ac allanol sydd ar gael i staff a phwysigrwydd dwyieithrwydd yn y gweithle. Yn cynnwys pedwar modiwl (Coleg Dwyieithog, Pwysigrwydd Cymraeg, Sgiliaith a thîm Cymraeg CAVC), bydd y cwrs gorfodol hwn yn dod yn rhan o broses ehangach o gynefino staff newydd CAVC a sesiwn datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol yn ystod 2023/24 er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

Datblygodd rhaglen DPP ar draws y coleg yn sylweddol gydag ystod o sesiynau ac/neu adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys yr holl DPP gofynnol i gael ei gynnig yn ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Cyrsiau Mewnol

- Cymraeg Gwaith - 68 o fynychwyr
- Diweddariad Gwrth-hiliaeth (Adnoddau/ PowerPoint wedi'u cynnig yn Gymraeg a Saesneg) – 304 o fynychwyr
- Rhaglen Hyfforddiant Methodoleg Dwyieithog ar gyfer Darlithwyr sy'n Siarad Cymraeg (Traethodir yn ddwyieithog) – 17 o fynychwyr
- Addysgu, Dysgu a Chymorth Dwyieithog (Traethodir yn Gymraeg) – 15 o fynychwyr
- Gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg o fewn AB (Traethodir yn ddwyieithog) – 9 o fynychwyr
- Rheoli Staff yn ystod Cyfnod Prawf (Adnoddau/PowerPoint wedi'u cynnig yn Gymraeg a Saesneg) – 11 o fynychwyr
- Gwerthusiadau (Adnoddau/PowerPoint wedi'u cynnig yn Gymraeg a Saesneg) – 7 o fynychwyr
- Cymraeg Gwaith – ar gyfer staff (Traethodir yn ddwyieithog) – 9 o fynychwyr
- Cymraeg Gwaith CBAC – ar gyfer staff (Traethodir yn ddwyieithog) – 2 o fynychwyr
- Cymraeg Gwaith - Dathliad Gwobrau Diwedd y Flwyddyn (Traethodir yn ddwyieithog) – 11 o fynychwyr



Cyrsiau Allanol

- Cwrs Dysgu Cymraeg Cymru – 1 mynychwr
- Modiwl MA ar Fethodoleg Addysgu Dwyieithog Sgiliaith – 1 mynychwr
- Dysgu Cymraeg - Cwrs Canolradd – 1 mynychwr
- Methodoleg Addysgu Dwyieithog – 1 mynychwr
- CBAC TAG Cyfrifiadureg: Asesu ac Ymarfer Dosbarth – 1 mynychwr
- CBAC TAG a TGAU Hanes: Asesu ac Ymarfer Dosbarth – 1 mynychwr
- CBAC Lefel U-UG Technoleg Ddigidol: Camau Nesaf – 1 mynychwr
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cynhadledd Ddigidol Diwygio Cymru – 1 mynychwr
- Cyflwyniad i Sicrhau Ansawdd Mewnol – 1 mynychwr
- Hyfforddiant Diweddarau Arolygu Ychwanegol ac Arolygu Cyfoedion yn y sector Ôl-16 oed Estyn – 1 mynychwr
- Paratoi i Gyflwyno Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch – 1 mynychwr


Gwnaethom barhau i dyfu ein clwb Adlais ar gyfer staff, gan ddatblygu cymuned Gymraeg gref ar draws pob campws. Dan arweiniad ein Hyrwyddwyr Cymraeg, roedd y clwb hwn yn cynnig cyfleoedd siarad ychwanegol i staff Cymraeg a staff sy'n dysgu Cymraeg, ochr yn ochr â chreu cyfleoedd newydd i nifer fawr o staff gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg drwy gydol y flwyddyn.

Ac mae ein hymdrechion i ddatblygu staff yn cael effaith, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cynyddu yn CAVC. Gwnaethom hefyd weld cynnydd yn ein harchwiliad sgiliau blynyddol, gan fod 55 aelod o staff yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl, dywedodd 299 aelod o staff fod ganddynt beth sgiliau Cymraeg a dywedodd 73 aelod o staff eu bod yn dysgu Cymraeg.

Hysbysebwyd pob swydd wag gyda'r angen am sgiliau Iaith Gymraeg yn Hanfodol (7 swydd) neu Ddymunol (171 swydd).

Gwnaethom barhau i ddarparu proffiliau adrannol Cymraeg i bob adran addysgu – er mwyn cefnogi datblygiad ym mhob maes. Mae'r proffiliau hyn yn adnabod pob agwedd ar y Gymraeg ym mhob adran, gan gynnwys nifer y dysgwyr Cymraeg, nifer y dysgwyr sy'n cael eu nodi ar gronfa ddata LLWR, nifer y staff sy'n rhugl, nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg, a chynnwys targedau penodol ar gyfer cwricwlwm Cymru a'r cwricwlwm dwyieithog. Mae adolygu'r proffiliau hyn mewn cymorthfeydd cwricwlwm yn galluogi gwaith cynllunio a datblygu'r Gymraeg yn gadarn ar draws y coleg - gan gefnogi pob adran i fodloni anghenion a datblygu eu cynnig, a'r Gymraeg ar draws CAVC.

Rhodddwyd cortyn i staff Cymraeg ar draws y coleg gyda'r symbol Cymraeg arno i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'i hyrwyddo. Wrth i ni ymgymryd â gwaith datblygu helaeth ar ein Cyfeirlyfr Staff ar y Porth Staff, gan alluogi pawb i adnabod yn hawdd staff sy'n siarad Cymraeg a staff sy'n dysgu Cymraeg ar draws y Coleg fesul adran - gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau dwyieithog i ddysgwyr, staff a'r cyhoedd.



Fel un sydd ddim yn siarad Cymraeg, dewisais addysg cyfrwng Gymraeg i fy mhlant ac rydym wedi gwneud y mwyaf o bob agwedd ar iaith, diwylliant ac ethos ein gwlad arbennig. Dyma'r penderfyniad gorau y gallwn fod wedi'i wneud gan eu bod wedi mynd ymlaen i ennill swyddi da gan ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Fi yw'r Pencampwr Cymraeg ar gyfer yr adran Busnes, TG ac AAT ac roedd hi'n bleser cael fy newis yn enillydd y Wobr Diwylliant Cymreig yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y rôl honno. Rwy'n ymrwymedig i gwricwlwm Cymru, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo busnesau Cymru, yn gwahodd siaradwyr gwadd Cymraeg a threfnu ymweliadau i ehangu gorfelion dysgwyr Cymraeg.

Rhian Hacker,
Darlithydd Busnes a
Phencampwr Cymraeg CAVC

Gweithiasom mewn partneriaeth – yn gwella cyfleoedd i'n dysgwyr a'n rhanbarth

Credwn yng ngrym partneriaeth a gweithio gyda rhwydwaith o sefydliadau i wella cyfleoedd ac er budd ein rhanbarth. Yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys...

Coleg Cymraeg Cenedlaethol – yn gweithio ar lefel strategol; yn hyrwyddo darpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg; a'r Coleg yn llwyddo i ennill a defnyddio cyllid i gynnal gweithgareddau, gan gynnwys datblygiad cyfrwng Cymraeg o fewn sawl sector â blaenoriaeth, hyrwyddo a hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar draws CAVC, gwobrau dysgwyr a staff, a'n cynllun llysgennad myfyrwyr, a llawer mwy.

Urdd Gobaith Cymru – yn dilyn rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus lwyddiannus, aeth aelodau o staff Cymraeg CAVC ati i weithio gyda'r Urdd i gefnogi rhagor o gyfleoedd ar gyfer staff a dysgwyr, cydweithio ar brosiectau, a chyflwyno gweithgareddau a chyfleoedd i bawb, fel 16 aelod o staff a fynychodd rhaglen breswyl Gymraeg unigryw, i uwchsgilio lefel eu Cymraeg a chael cefnogaeth ac arweiniad i ymgorffori'r Gymraeg yn eu hystafelloedd dosbarth, cynnig adborth yn ogystal â chyfathrebu ar lafar ac ysgrifenedig. Hon oedd yr unig raglen breswyl Gymraeg o'i math yng Nghymru ac roedd yn llwyddiannus iawn o ran magu hyder ein haelodau staff yn CAVC. .

Menter Caerdydd & Menter y Fro – noddi a chefnogi gŵyl allweddol, sef Tafwyl; cydweithio er mwyn cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus a rhagor o gyfleoedd ar gyfer staff a dysgwyr.

Comisiynydd y Gymraeg – gweithio'n gefnogol i ddatblygu cydymffurfiaeth a hyrwyddo, gan gynnwys mynychu digwyddiadau hyfforddiant, cynnig adborth rheolaidd a pharhau i gefnogi Dydd Hawliau'r Gymraeg.

Fforymau Addysg Caerdydd a'r Fro – cydweithio ar Gynlluniau Strategol dros 10 mlynedd; cydweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.





Rydym wedi mabwysiadu rhwydwaith dynamig o bartneriaid gwerthfawr ar draws Caerdydd, y Fro ac ar lefel genedlaethol. Gan weithio'n agos â nhw bob blwyddyn, rydym yn datblygu cyfleoedd newydd ac arloesol i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau a'u rhagolygon.

Nic Buttle,
Rheolwr Cwricwlwm Cymru CAVC

Ysgolion cyfrwng Cymraeg – gyda gwaith partneriaeth cadarnhaol ar lefel uwch i gynllunio darpariaeth, drwodd i dîm cysylltu'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a hyrwyddo cynnydd a chefnogaeth ymysg disgyblion.

Caerdydd Ddwieithog – gyda'n rheolwr cwricwlwm Cymru ar y fforwm strategol Cymraeg i gefnogi a hyrwyddo Caerdydd ddwyeithog. A chynaliasom ddigwyddiad gyrfaedd Cymraeg i dros 600 o ddisgyblion blwyddyn 9 gyda siaradwyr gwadd, gweithdai, stondinau marchnad yn cynnig gwybodaeth ynghylch cyfleoedd am yrfa yn y Gymraeg.

Cyrff dyfarnu – gweithio gyda chyrff dyfarnu ar draws y DU i ddatblygu arholiadau, adnoddau a deunyddiau i gefnogi asesiadau a chymwysterau cyfrwng Cymraeg, a gweithio gyda Cymwysterau Cymru mewn perthynas â chyfleoedd ac adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi ein dysgwyr.

Estyn – Parhaodd ein Rheolwr Cwricwlwm Cymru ac arbenigwr mewn cyfleoedd, cyflawni a datblygu'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i ymgymryd â hyfforddiant pellach i gefnogi cyfleoedd arolygu'r dyfodol.



Gwnaethom gynnal agwedd gadarnhaol a chadarn at fodloni Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg

Mae gan y Coleg gynllun blynyddol cadarn i fodloni ei Safonau'r Gymraeg. Caiff hwn ei oruchwylio gan strwythur i adrodd a monitro gofynion a chynnydd.

Mae ymgyrch cyfathrebu mewnol cyfredol yn cefnogi staff i ddeall gofynion a'u bodloni. Yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys diweddariadau yn ein cylchlythyr staff 'limelight', cyfarfodydd adran; cyfleoedd i gyflawni datblygiad proffesiynol parhaus; Dogfen gipolwg ar gyfer pob aelod o staff a maes wedi'i adnewyddu ar y Porth Staff, gan gynnwys gwybodaeth bwysig, templedi, canllawiau, gwybodaeth ynghylch hawliau myfyrwyr a chwestiynau cyffredin. A gwnaethom ddarparu hyfforddiant teilwredig ar ofynion safonau'r Gymraeg i staff newydd mewn meysydd allweddol i sicrhau bod ein cydymffurfiaeth yn parhau i fod yn dda.

Gwnaethom barhau i gymryd camau arloesol - yn buddsoddi mewn systemau a phrosesau ar draws y coleg a datblygu rhai newydd er mwyn cefnogi gydag ymdrechion i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg - gan gael effaith gadarnhaol ar ein gwasanaeth i staff, dysgwyr a'n cymuned. Yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys manteisio ar ein ap MyCAVC dwyieithog i ddysgwyr; datblygu ein gwefan a phyrth CAVC ymhellach; parhau â'n proses gyfieithu ganolog a'r gyllideb i gael gwared ar rwystrau er mwyn sicrhau dwyieithrwydd, a lansio SgwrsFyw ddwyieithog ar wefan CAVC.

Gwnaethom ddarparu proses glir ar gyfer cwynion ynghylch ein gofynion Safonau dan y penawdau Darpariaeth Gwasanaeth, Gwneud Polisiâu a Gweithredol, a mynd i'r afael â chwynion o'r fath. Yn y cyfnod hwn, ni chawsom unrhyw gwynion.

Gwnaethom hyrwyddo hawliau staff a myfyrwyr, cefnogi ymgyrch Diwrnod Hawliau Comisiynydd y Gymraeg, sef 'Mae gen i hawl', a mewnosod prif negeseuon ym mhob gweithgaredd marchnata, recriwtio a chyfathrebu a gwybodaeth cyn ac ar ôl ymrestru i ddysgwyr.

A'n prif ymgyrch hirhoedlog, sef 'Siarad. Dysgu. Byw'. Gwnaethom barhau i ddefnyddio hwn gydol y flwyddyn yn fewnol ar gyfer staff a dysgwyr, ac yn allanol hefyd - gan rannu ein hymrwymiad i ddatblygu cyfleoedd i bawb siarad, dysgu a byw yn Gymraeg.

#falch

Cymraeg

Am ragor o wybodaeth:

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw agwedd ar yr adroddiad hwn neu i gymryd rhan, cysylltwch â cymraeg@cavc.ac.uk